Gwasanaethau Cyngor Gwynedd

sydd dal yn cael eu gwneud mewn ffordd gwahanol

Gwasanaethau ydi y pethau mae y Cyngor yn ei wneud ar gyfer pobl Gwynedd

Dyma rai o gwasanaethau Cyngor Gwynedd sydd heb fynd yn ôl i normal.

Y ffordd gorau i siarad hefo rhywun yn Cyngor Gwynedd ydi ar y we trwy glicio ar y llun ar y chwith.

Neu mi allwch chi ein ffonio ni ar 01766 771000.

Mae Siopau Gwynedd yn Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn agored os ydi hi yn well gennych chi weld rhywun mewn person. Mae yn rhaid i chi drefnu amser i ddod i mewn. Mi allwch chi wneud hynny drwy glicio a y geiriau yma:

Apwyntiad Siop Gwynedd

Mae amser rhai bysus wedi newid.

Mae rhaid i chi checio amser bysus i weld os ydi y bws rydych chi ei eisiau ar gael.

Cliciwch ar y llun bws i weld yr amserlen bws neu ffoniwch Traveline Cymru ar 0800 4640000

Mae ysgolion i gyd wedi agor. Os oes gennych chi gwestiwn am beth mae yr ysgol yn wneud y peth gorau i chi wneud ydi siarad hefo'r ysgol.

I wybod beth sydd yn digwydd hefo meithrinfa mae yn well i chi ffonio y meithrinfa.

Meithrinfa ydi lle sydd yn edrych ar ôl plant bach

Mi fydd y Cyngor yn nol eich bin ac ailgylchu fel arfer.

Er mwyn cadw ein gweithwyr yn saff ryda ni yn gofyn i chi i:

- Cadw 2 fedr oddi wrth y gweithwyr
- Peidio rhoi hances papur yn y bocs ailgylchu
- Llnau pob eitem plastig, metal a gwydr
- Llnau handl y bin a'r cartgylchu os yda chi yn gallu
- Rhoi sbwriel mewn bagiau cyn ei roi yn y bin sbwriel
- Peidio rhoi'r cartgylchu allan am 14 diwrnod os oes yna rywun yn eich tŷ hefo Cofid-19.
- Os oes gennych chi ormod o ailgylchu mi gewch chi roi y rhai sydd ddim yn ffitio yn y cartgylchu mewn bocs arall

Mae pob canolfan ailgylchu yn Gwynedd ar agor ond mae yn rhaid trefnu amser (slot) i fynd yna.

Mi allwch chi wneud hynny trwy glicio ar y llun a llenwi ffurflen.

Neu mi allwch chi ffonio ar 01766 771000.

Ddyla chi ddim mynd i'r Canolfan Ailgylchu os yda chi yn meddwl fod gennych chi Covid-19.

Mae'r llyfrgelloedd yn agored ond rhaid i chdi drefnu o flaen llaw.

Neu mi allwch chi ddefnyddio ein trefn Archebu a Chasglu / Cludo i'r Cartref.

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar y llun.

Mae gweithwyr cymdeithasol ar gael i helpu. Ella fydd hynny'n digwydd ar y ffôn neu ar y cyfrifiadur.

Dydi Gofal Dydd ddim yn digwydd ar y funud. Mae pawb yn cael eu helpu mewn ffordd arall.

Mae hi yn bosib mynd i weld rhywun mewn Cartref Gofal os yda chi yn trefnu o flaen llaw. Mae angen i chi siarad hefo y cartref i drefnu.

Mae y gwasanaeth gofal cartref yn trio helpu pawb ond mae'n rhaid edrych ar ôl y pobl sydd angen help mwyaf gyntaf.

Mae yn bosib fydd bob gwasanaeth ddim ar gael. Mae y Cyngor yn gofyn i deuluoedd helpu gymaint â fedra nhw.


CERTIFIED COPY OF AN ENTRY COPI DILYS O GO
Pursuant to the Births and Deaths Registration Act 1953
DEATH - MARWOLAETH

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod i'r Cyngor am fabi wedi ei eni neu fod rhywun wedi marw mae angen i chi ffonio ar 01766 771000.

Mae seremoni priodas a phartneriaeth sifil yn dal i gael eu gwneud yn Cyngor Gwynedd. Cliciwch ar y llun am fwy o wybodaeth.

Mae'r amlosgfa yn cael ei llnau'n ofalus.

Mae pobl sydd yn mynd i yr amlosgfa yn gorfod eistedd 2 fetr i ffwrdd oddi wrth pawb arall

Mae lot o cyfarfodydd a pwyllgorau Cyngor Gwynedd yn awr yn digwydd ar y we.

Mae Amgueddfa Lloyd George wedi cau ar y funud

Mae Storiel wedi cau ar y funud

Mae yn bosib i chi gerdded y llwybrau yn Parc Padarn yn Llanberis ond mae yr amgueddfa wedi cau.

Nid oes digwyddiadau yn Neuadd Dwyfor ar hyn o bryd

Os oes gennych chi fusnes bwyd newydd mae yn rhaid i chi siarad hefo Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd.

Mi allwch chi e-bostio ar Bwyd@gwynedd.llyw.cymru

Neu mi allwch chi ffonio ar 01766 771 000

Os yda chi eisiau siarad hefo rhywun am eich Trethi Busnes y ffordd gorau o wneud hynny ydi ar e-bost: trethiannomestig@gwynedd.llyw.cymru

Mae hyn achos fod lot o weithwyr Cyngor Gwynedd yn gweithio o adra.

Os ydych chi yn poeni fod busnes yn Gwynedd yn torri rheolau Cofid mi ddylech chi gysylltu hefo ni.

Mi allwch chi wneud hynny ar y we.

Neu drwy ffonio 01766 771000.